**Senedd Cymru | Ymchwil y Senedd**
Welsh Parliament | Senedd Research

# Ymchwiliad COVID-19 y DU: Adroddiad monitro

Pwyllgor Diben Arbenning Ymchwiliad Covid-19 Cymru | 26 Medi 2023
Wales Covid-19 Inquiry Special Purpose Committee | 26 September 2023

Cyfeirnod: SR6848-1

## Cyflwyniad

Ar 16 Mai 2023, pleidleisiodd y Senedd dros greu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ar 11 Gorffennaf i drafod ei raglen waith. Yr wythnos diwethaf, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sam Hartley, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Dadansoddi a Dirprwy Ysgrifennydd Ymchwiliad Covid-19 y DU. Mae'r papur briffio ymchwil hwn yn rhoi diweddariad ar waith ymchwiliad Covid-19 y DU hyd yn hyn.

Gwybodaeth ddefnyddiol:

Ymchwil y Senedd, Llinell amser coronafeirws: yr ymateb yng Nghymru

Ymchwiliad Covid-19 y DU Cylchlythyrau

# 1. Ymchwiliad COVID-19 y DU

## 1.1 Cefndir

Dechreuodd Ymchwiliad Covid-19 y DU, dan arweiniad y Farwnes Hallett, ei waith yn swyddogol ar 28 Mehefin 2022 pan gyhoeddodd ei gylch gorchwyl. Bydd Ymchwiliad Covid-19 y DU yn edrych ar y modd yr ymdriniwyd â'r pandemig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae hyn yn cynnwys materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig. Dyma'r ymateb ar y pryd gan y Prif Weinidog Mark Drakeford:

> Rwy'n fodlon bod y cylch gorchwyl bellach yn sicrhau y bydd yr Ymchwiliad yn ymdrin â'r camau a gymerwyd yng Nghymru ac â'r gydberthynas rhwng y penderfyniadau a gafodd eu gwneud ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae ymchwiliad ar wahân yn cael ei gynnal yn yr Alban, a fydd yn gwerthuso meysydd lle y mae polisi wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl.

## 1.2 Strwythur yr Ymchwiliad

Mae'r Ymchwiliad wedi'i rannu'n fodiwlau i edrych ar rannau gwahanol o ymateb y DU i'r pandemig. Bydd pob modiwl yn edrych ar faterion ar draws y DU gyfan, gan gynnwys yn y gweinyddiaethau datganoledig. Mae gan bob modiwl wrandawiad rhagarweiniol cyfatebol a gwrandawiad llawn. Mae pedwar modiwl yn weithredol ar hyn o bryd:

- Cydnerthedd a pharatoi (dechreuodd ar 21 Gorffennaf 2022)
- Penderfyniadau craidd y DU a rheolaeth wleidyddol (dechreuodd ar 31 Awst 2022)
- Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU (dechreuodd ar 8 Awst 2022)
- Brechlynnau a therapiwteg (dechreuodd ar 5 Mehefin 2023)

Bydd modiwlau'r dyfodol yn cynnwys Gwaith caffael y Llywodraeth a'r Sector gofal. Bydd rhagor o fodiwlau'n cael eu cyhoeddi sy'n debygol o ymdrin â phrofi

ac olrhain, ymatebion busnes ac ariannol y Llywodraeth, anghydraddoldebau iechyd ac effaith Covid-19, addysg, plant a phobl ifanc, a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys darpariaeth reng flaen gan weithwyr allweddol.

## Cyfranogwyr craidd

Mae gan gyfranogwyr craidd ran weithredol yn ystod proses yr Ymchwiliad. Gall cyfranogwr craidd fod yn unigolyn neu'n grŵp sydd â buddiant penodol yng ngwaith yr ymchwiliad. Gellir eu gwahaniaethu oddi wrth dyst, na chaniateir iddo ofyn cwestiynau. Caiff cyfranogwyr craidd (neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol) wneud datganiadau agoriadol a chloi mewn unrhyw wrandawiad, gofyn cwestiynau i dystion mewn gwrandawiadau cyhoeddus (os caniateir iddynt wneud hynny gan y Cadeirydd), gweld unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'u buddiant yn yr Ymchwiliad a'r adroddiad drafft perthnasol cyn iddo gael ei gyhoeddi. Dynodir cyfranogwyr craidd fesul modiwl, sy'n golygu y gallant amrywio ar gyfer pob modiwl.

## Ymarfer gwrando

Mae ymchwiliad Covid-19 y DU yn clywed gan aelodau o’r cyhoedd am eu profiadau o bandemig Covid-19. Llwyfan ar-lein yw Mae Pob Stori O Bwys sy'n rhoi cyfle i'r aelodau o’r cyhoedd rannu'r hyn a ddigwyddodd iddynt. Bydd adroddiadau thema yn cael eu cyhoeddi. Bydd yn parhau i fod ar agor drwy gydol yr ymchwiliad. Mae’n rhaid i unigolion fod yn 18 oed neu drosodd i ddefnyddio'r ffurflen. Mae'r ymchwiliad wrthi’n cynllunio ffordd effeithiol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ochr yn ochr â hyn.

## Gwrandawiadau rhagarweiniol

Mae gwrandawiad rhagarweiniol yn **wrandawiad gweithdrefnol** pan fydd penderfyniadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud. Mae ffrwd fyw o'r gwrandawiadau rhagarweiniol ar gael. Yn y **gwrandawiadau cyhoeddus,** bydd yr Ymchwiliad yn clywed tystiolaeth yn ffurfiol, gan gynnwys gan dystion sydd wedi tyngu llw.

## Ceisiadau rheol 9

Mae cais rheol 9 yn **gais am wybodaeth** a wneir o dan y pwerau a nodir yn rheol 9 o Reolau Ymchwiliad 2006. Gall fod yn gais am ddogfennau a/neu’n ddatganiad tyst a bwriedir iddo helpu'r ymchwiliad i ddeall proses y penderfyniadau a’r naratif ynghylch sut a pham y cafodd penderfyniadau allweddol eu gwneud. Gall

methiant i gydymffurfio â chais rheol 9 arwain at ofyniad i gyflwyno'r dystiolaeth dan sylw, o dan y pwerau a nodir yn adran 21 o Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Er mai cyfranogwyr craidd sydd fwyaf tebygol o gael cais rheol 9, caiff y cadeirydd wneud cais i unrhyw un y mae'r Ymchwiliad o'r farn bod ganddo wybodaeth sy'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu hystyried.

## 1.3 Amserlen gwrandawiadau

Mae'r Ymchwiliad cyhoeddus wedi cwblhau ei wrandawiadau cyhoeddus ar Fodiwl 1 ac wedi ymrwymo i gyhoeddi ei **adroddiad erbyn dechrau haf 2024**.

Mae'r ymchwiliad bellach yn edrych ar Fodiwl 2, gyda gwrandawiadau cyhoeddus i ddechrau ar 3 Hydref. Disgwylir i wrandawiadau cyhoeddus ar gyfer **Modiwl 2B Cymru** ddechrau ym mis Ionawr 2024.

Mae tîm yr ymchwiliad hefyd yn paratoi at Fodiwlau 3 a 4 gyda gwrandawiadau cyhoeddus yn yr arfaeth ar gyfer 2024.

| Modiwl | Cwmpas | Dyddiad dechrau | Gwrandawiadau rhagarweiniol | Gwrandawiad cyhoeddus |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Paratoi at y pandemig | 21 Gorffennaf 2022 | 4 Hydref 2022 | 13 Mehefin – 19 Gorffennaf 2023 |
| 2 | Penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol mewn perthynas â'r pandemig.<br><br>Mae **Modiwl 2B** yn ymdrin â'r materion strategol a chyffredinol o safbwynt Cymru | 31 Awst 2022 | 31 Hydref 2022<br><br>1 Tachwedd 2022 | Bydd gwrandawiadau cyhoeddus yn dechrau ar **3 Hydref 2023**<br><br>**Ionawr 2024** (i'w gadarnhau) |
| 3 | Effaith y pandemig ar systemau iechyd meddwl | 8 Tachwedd 2022 | *28 Chwefror 2023 | Disgwylir iddynt ddechrau yn hydref 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Brechlynnau a therapiwteg | 5 Mehefin 2023 | 13 Medi 2023 | ** Disgwylir iddynt ddechrau yn ystod haf 2024 |

* Bydd yr ail wrandawiad rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 3 yn cael ei gynnal **ddydd Mercher 27 Medi** ** Bwriedir cynnal gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer Modiwl 4 yn ystod haf 2024, cyn y rhai ar gyfer Modiwl 3 (systemau gofal iechyd), y disgwylir iddynt ddechrau yn hydref 2024.

# 2. Gwrandawiadau Cyhoeddus Cyntaf – Cydnerthedd a pharatoi

## Modiwl 1 - Cydnerthedd a pharatoi

Dechreuodd Modiwl 1 ar gydnerthedd a pharatoi ar 21 Gorffennaf 2022. Mae'r Modiwl wedi'i ddynodi i edrych ar waith parotai at y pandemig. Asesu a gafodd cynlluniau priodol eu gwneud ar gyfer y pandemig ac a oedd y DU yn ddigon parod ar gyfer y posibilrwydd y byddai'n digwydd. Mae'r Modiwl yn ymwneud â **system gyfan argyfyngau sifil,** gan gynnwys adnoddau, rheoli risg a gwaith paratoi at bandemig.

Cyhoeddwyd rhestr o **Gyfranogwyr Craidd** ym Modiwl 1 ar 12 Mehefin 2023. Mae'r rhain yn cynnwys Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd Modiwl 1 yn edrych ar archwilio'r **gydnerthedd a gwaith paratoi'r** DU ac yn ystyried a gafodd y pandemig ei nodi'n briodol ac a oedd cynlluniau priodol ar ei gyfer. Bydd y modiwl yn edrych ar:

1. **nodweddion sylfaenol ac epidemioleg** Coronafeirws Syndrom Anadlol Acíwt Difrifol 2 (SARS-CoV-2) a chlefyd Coronafeirws (COVID-19).

2. **Strwythurau a chyrff arbenigol y Llywodraeth sy'n ymwneud â rheoli risg a gwaith cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil**, gan gynnwys gweinyddiaethau datganoledig a'u strwythurau, awdurdodau lleol a chyrff y sector preifat, newidiadau hanesyddol i strwythurau a chyrff o'r fath, yn ogystal â'r strwythurau a oedd ar waith ym mis Ionawr 2020, prosesau rhyng-sefydliadol a chydweithrediad.

3. Y **gwaith cynllunio ar gyfer pandemig**, gan gynnwys rhagweld, adnoddau, a'r gwersi o ymarferion efelychu yn y gorffennol (gan gynnwys coronafeirws, clefydau heintus newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac ymarferion pandemig/epidemig ffliw), y cynlluniau rhag argyfwng a oedd ar waith, materion bioddiogelwch sy'n berthnasol i risg pandemigau/epidemigau, cymariaethau rhyngwladol a hanes ymchwiliadau sy'n gyaylltiedig â pholisi yn y gorffennol a'r hyn a ddysgwyd ohonynt.

4. **Gwasanaethau iechyd cyhoeddus**, gan gynnwys strwythur cyrff iechyd cyhoeddus, eu datblygiad gyda threigl amser a pharodrwydd a gwaith paratoi ymarferol; capasiti, adnoddau a lefelau cyllid iechyd y cyhoedd, unrhyw effaith sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a'r ffordd roedd cyrff perthnasol yn monitro clefyd sy'n dod i'r amlwg ac yn cyfleu gwybodaeth amdano.

5. **Gwaith cynllunio economaidd** gan gyrff perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys capasiti ac ymrwymiadau gwariant a rheolaethau effeithlonrwydd a gwrth-dwyll, yng nghyd-destun gwaith cynllunio rhag argyfwng.

6. **Cynllunio ar gyfer pandemigau yn y dyfodol**, gan gynnwys (yn amlinellol) cyflwr parodrwydd rhyngwladol; risgiau amrywiolion newydd o Covid-19, feirysau eraill sy'n peri pryder, a chlefydau o gyswllt dynol/drosglwyddiad feirysol ag anifeiliaid.

## Gwrandawiadau rhagarweiniol – Modiwl 1

Cynhaliwyd y gwrandawiad rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 1 ar **4 Hydref 2022**. Yn y gwrandawiad, dywedodd Ms Heaven, yn cynrychioli grŵp Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, y canlynol wrth yr ymchwiliad:

> There are still concerns in Wales, and indeed in all of the other devolved administrations, that the preliminary scope of Module 1 does not set out in any detail the issues specific to Wales that ought to be investigated by this public Inquiry. It is vitally important that the people of Wales can have full confidence that this public Inquiry will scrutinise decision-making in Wales in respect to the pandemic.

Mewn perthynas â **gwaith paratoi**, nododd Ms Heaven y canlynol:

> Whilst the UK influenza pandemic preparedness strategy 2011 concerned a UK-wide strategic approach to planning for and responding to the demands of an influenza pandemic, the Cabinet Office Guidance of November 2017 on pandemic flu planning made absolutely clear that devolved administrations are responsible for the major areas of pandemic influenza planning and response in their respective countries. It also made clear that it was the Wales resilience forum chaired by the First Minister for Wales that provides the mechanism for a national multi-agency overview of pandemic preparedness in Wales. There can therefore be no doubt that responsibility for pandemic planning in Wales was largely, if not entirely, in the hands of the Welsh Government.

Tynnodd Ms Heaven sylw at **feysydd allweddol** y dywedodd grŵp Covid-19 Bereaved Families for Justice Cyrmu ei fod am i'r ymchwiliad graffu arnynt mewn perthynas â Chymru ym Modwl 1:

- **Lefel y cyllid** a ddarparwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU ac a gafodd effaith ar y gwaith cynllunio, a'r parodrwydd yng Nghymru am y pandemig, a'r cysylltiadau gwleidyddol rhwng Cymru a Llywodraeth y DU.

- **Gwaith cydgysylltu** rhwng Llywodraeth y DU a'r holl lywodraethau datganoledig a'r amrywiad mewn safonau yn y dull o baratoi at bandemig.

- Y **parodrwydd yn GIG Cymru** yn ystad ysbytai Cymru ac mewn cartrefi gofal yng Nghymru mewn cysylltiad â mesurau rheoli heintiau, gan gynnwys gwahanu, adnoddau cyfarpar diogelu personol, casglu ynghyd a dosbarthu, ac a oedd digon ohonynt neu, yn wir, unrhyw waith cynllunio mewn perthynas â gweithdrefnau ar ôl marwolaeth i ddiogelu urddas ac i gefnogi'r Cymry mewn profedigaeth pe bai pandemig.

## Gwrandiawiadau Cyhoeddus - Tystiolaeth mewn perthynas â Chymru

Yn ystod gwrandawiadau Modiwl 1, casglodd yr Ymchwiliad filoedd o ddogfennau, yn ogystal â datganiadau tyst ysgrifenedig. Gellir gweld y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn ystod Modiwl 1 ar dudalen dogfennau gwefan Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19. Cyhoeddodd hefyd amserlen ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus Modiwl 1, ac mae trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus ar gael ar-lein.

Cynhaliwyd gwrandawiad cyhoeddus cyntaf **Modiwl 1 ar gydnerthedd a pharatoi** ar 13 Mehefin 2023 a pharhaodd tan 19 Gorffennaf 2023. Mewn perthynas â Chymru yn benodol, clywodd yr ymchwiliad gan y canlynol:

- **3 Gorffennaf:** Syr Frank Atherton (Prif Swyddog Meddygol Cymru), a Dr Andrew Goodall (cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru)
- **4 Gorffennaf:** Dr Andrew Goodall; Dr Quentin Sandifer (Cynghorydd Ymgynghorol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru); Vaughan Gething (cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-2021 a'r Dirprwy Weinidog Iechyd 2014-2016), a Mark Drakeford (Prif Weinidog Cymru ers 2018)
- **6 Gorffennaf:** Reg Kilpatrick (Cyfarwyddwr Adran Llywodraeth Leol 2011-2020 a Chyfarwyddwr Cyffredinol Adfer Covid a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru erbyn hyn)
- **12 Gorffennaf:** Chris Llewelyn (Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).
- **18 a 19 Gorffennaf:**Cafwyd datganiadau i gloi gan Anna-Louise Marsh-Rees (Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru), Ms Heavan ar ran Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru a Mr Allen KC ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd **papur briffio ymchwil ar wahân** yn cael ei ddarparu ar gyfer yr Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol, a fydd yn crynhoi'r materion allweddol o'r gwrandawiadau cyhoeddus ar Fodiwl 1 sy'n benodol i Gymru.

# 3. Gwrandawiadau cyhoeddus yn y dyfodol

## Modiwl 2 – Penderfyniadau craidd y DU a rheolaeth wleidyddol

Dechreuodd Modiwl 2 ar benderfyniadau craidd y DU a rheolaeth wleidyddol ar 31 Awst 2022 ac mae wedi'i wahanu'n bedair rhan. Cyhoeddwyd rhestr o **Gyfranogwyr Craidd** ym Modiwl 2 ar 28 Hydref 2022. Maent yn cynnwys Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Anabledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd Modiwl 2 yn edrych i ar **benderfyniadau craidd y DU a rheolaeth wleidyddol**. Bydd yn cynnwys yr ymateb cychwynnol, penderfyniadau'r

llywodraeth ganolog, perfformiad gwleidyddol a'r gwasanaeth sifil, yn ogystal ag effeithiolrwydd perthnasoedd â llywodraethau yn y gweinyddiaethau datganoledig a'r sectorau lleol a gwirfoddol. Bydd Modiwl 2 hefyd yn asesu penderfyniadau ynghylch mesurau anfferyllol a'r ffactorau a gyfrannodd i'w gweithredu.

Mae amlinelliad o gwmpas Modiwl 2 wedi'i gyhoeddi. Mae'n cyfeirio at Fodiwlau 2A, B ac C, sy'n ymdrin â'r materion strategol a chyffredinol o safbwynt Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y modiwlau hyn yn cael eu trin fel **Modiwlau unigol ar wahân** a bydd gwrandawiadau cyhoeddus ar eu cyfer **yn cael eu cynnal yn y cenhedloedd** y maent yn ymwneud â hwy.

## Gwrandawiadau rhagarweiniol – Modiwl 2

Cynhaliwyd y **gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf** ar gyfer Modiwl 2 ar 31 Hydref 2022. Cynhaliwyd dau wrandawiad rhagarweiniol arall ar y Modiwl hwn ar 1 Mawrth a 6 Mehefin 2023.

Yn y gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf, tynnodd Mr Willaims KC, ar ran Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, sylw at rai o'r meysydd sy'n peri pryder y mae'n rhaid i'r ymchwiliad cyhoeddus hwn graffu arnynt mewn cysylltiad â Chymru. Y rhain oedd:

- I ba raddau roedd **gwybodaeth yn cael ei rhannu** rhwng Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig ar faterion gwyddonol a meddygol.
- y camau a gymerwyd neu nas cymerwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddylanwadwyd arnynt gan **benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a pham roeddent yn wahanol iddynt**.
- a **oedd modd cyfiawnhau'r** camau a gymerwyd neu nas cymerwyd gan Lywodraeth Cymru **yn sgil cyflwr y wybodaeth,** boed hynny'n gyngor arbenigol, meddygol neu fel arall.
- i ba raddau y cafodd penderfyniadau Llywodraeth Cymru eu cefnogi neu na chawsant eu cefnogi **gan farn arbenigol**.
- i ba raddau y **dylanwadwyd** ar gamau Llywodraeth Cymru **gan ystyriaethau gwleidyddol**.

Cyfeiriodd Mr Williams KC hefyd at **ddigwyddiadau lledaenu mawr** yng Nghymru yn 2020. Nododd y cafodd y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r

Alban ei chanslo y diwrnod cyn roedd i'w chwarae, ar ôl i nifer fawr iawn o gefnogwyr Cymru a'r Alban gyrraedd Caerdydd.

Un mater allweddol o'r dystiolaeth hyd yn hyn yw'r **angen i ganolbwyntio ar anghydraddoldebau**. Yn y gwrandawiad rhagarweiniol ar 31 Hydref 2022, pwysleisiodd Ms Sivakumaran, yn cynrychioli sefydliadau pobl anabl, yr effaith anghymesur y cafodd y pandemig ar grwpiau agored i niwed. Ar 1 Mawrth 2023, awgrymodd Ms Twite, ar ran nifer o sefydliadau hawliau plant, fod yr ymchwiliad yn **ystyried anghydraddoldebau a achoswyd gan anfantais economaidd-gymdeithasol** yn ogystal â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb, gan nodi, er nad oes dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny yn Lloegr, fod un yng Nghymru a'r Alban.

Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer Modiwl 2 yn dechrau ar **3 Hydref 2023.**

## Cwmpas - Modiwl 2B (Cymru)

Mae **Modiwl 2B** yn cwmpasu Cymru. Nid yw'r cwmpas wedi'i gwblhau ond disgwylir y bydd y modiwl yn edrych ar **benderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd Llywodraeth Cymru** mewn perthynas â phandemig Covid-19 **rhwng mis Ionawr 2020 a mis Mai 2022** (pan godwyd y cyfyngiadau Covid-19 a oedd yn weddill ar y pryd yng Nghymru).

Y rheswm dros gael Modiwl 2B ar wahân yw oherwydd, ochr yn ochr â phenderfyniadau ar gyfer y DU, fod penderfyniadau perthnasol hefyd mewn perthynas â Chymru. Bydd Modiwl 2B yn **edrych ar benderfyniadau grwpiau allweddol ac unigolion yn y llywodraeth yng Nghymru,** gan gynnwys y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill Cymru, yn enwedig rhwng dechrau mis Ionawr a diwedd mis Mawrth 2020 pan gafodd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf eu gosod.

Bydd Modiwl 2B yn edrych ar y canlynol:

1. **Strwythurau Llywodraeth Cymru a'r cyrff allweddol sydd ynddi** sy'n ymwneud ag ymateb Cymru i'r pandemig a'u perthynas a'u negeseuon gyda Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig eraill ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

2. **Dealltwriaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru o** natur a lledaeniad Covid-19 yng Nghymru**, a'i hymateb i hynny**, yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 yn sgil gwybodaeth a chyngor a gafwyd gan Lywodraeth y

DU a chyrff rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol eraill, cyngor gan ymgynghorwyr gwyddonol, meddygol a chynghorwyr eraill ac ymateb gwledydd eraill.

3. Penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gosod gosod **ymyriadau anfferyllol** ai peidio, gan gynnwys:

    a. cyfnodau clo, cyfyngiadau lleol, gweithio gartref, lleihau cyffyrddiad rhwng pobl, cadw pellter cymdeithasol, defnyddio gorchuddion wyneb a rheolaethau ffin yng Nghymru;

    b. y graddau a'r sail resymegol y tu ôl i **wahaniaethau mewn dull** rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill yn y DU;

    c. **prydlondeb a rhesymoldeb** ymyriadau anfferyllol o'r fath, gan gynnwys yr effeithiau tebygol pe bai penderfyniadau i ymyrryd wedi'u gwneud yn gynharach neu'n wahanol;

    d. datblygu'r dull o ymdrin ag ymyriadau anfferyllol yn sgil dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'u **heffatih ar drosglwyddo, haint a marwolaeth**;

    e. nodi **grwpiau mewn perygl a grwpiau eraill sy'n agored i niwed** yng Nghymru ac asesu effaith debygol ymyriadau anfferyllol ystyriol ar grwpiau o'r fath yn sgil anghydraddoldebau sy’n bodoli;

    f. effaith, os o gwbl, **cyllid** ymateb Cymru i’r pandemig ar benderfyniadau o'r fath, gan gynnwys cyllid a gafwyd gan Lywodraeth y DU.

4. **Mynediad at arbenigedd meddygol a gwyddonol, data a gasglwyd a gwaith modelu a’r defnydd o hynny wrth wneud penderfyniadau** mewn perthynas â lledaeniad y feirws yng Nghymru; mesur cyfraddau trosglwyddo, heintio, mwtanu, ailheintio a marwolaethau a dealltwriaeth ohonynt yng Nghymru; a'r berthynas rhwng systemau perthnasol a’u gweithredu ar gyfer casglu, modelu a lledaenu data.

5. **Negeseuon iechyd cyhoeddus** yng Nghymru mewn perthynas â'r camau a oedd yn cael eu cymryd i reoli lledaeniad y feirws; tryloywder negeseuon; y defnydd o reoli ymddygiad a chynnal hyder y cyhoedd yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys effaith achosion honedig o dorri rheolau a safonau gan Weinidogion, swyddogion a chynghorwyr.

6. **Deddfwriaeth a rheoliadau iechyd y cyhoedd a choronafeirws** a gynigiwyd ac a ddeddfwyd: eu cymesuredd a'u gorfodi ar draws Cymru.

Mae'r **Cyfranogwyr Craidd ar gyfer Modiwl 2B** yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, y Gymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr ac Ymgyrch John, Comisiynydd Plant Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur, Disability Rights UK ac Anabledd Cymru.

### Gwrandawiadau rhagarweiniol – Modiwl 2B

Cynhaliwyd y gwrandawiad rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 2B ar 1 Tachwedd 2022. Mae'r gwrandawiadau cyhoeddus cyntaf ar gyfer Modiwl 2B yn debygol o gael eu cynnal ym mis Ionawr 2024.

Yn y **gwrandawiad rhagarweiniol**, clywodd yr ymchwiliad gan Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur, Comisiynydd Plant Cymru, y Gymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr ac Ymgyrch John a Llywodraeth Cymru.

Nododd Cyngres yr Undebau Llafur fod **statws cyfranogwyr craidd yn amrywio ar draws y modiwlau datganoledig.** Rhoddodd enghraifft y Comisiynydd Pobl Hŷn, sy'n gyfranogwr craidd ym Modiwl 2C (Gogledd Iwerddon) ond nid yn y cenhedloedd datganoledig eraill. Gwnaeth Cyngres yr Undebau Llafur y pwynt bod clywed gan y sefydliadau hyn yn allweddol i gymharu a chyferbynnu dulliau gwahanol ar draws y DU. Fodd bynnag, esboniodd yr Arglwyddes Hallett na allai ond penodi cyfranogwyr craidd o'r rhai a wnaeth gais.

Nododd Mr Rhodri Williams KC, yn cynrychioli Comisiynydd Plant Cymru rai pryderon cychwynnol ynghylch a fydd **digon o ffocws ar blant a phobl ifanc** mewn perthynas â'r penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag ymyriadau anfferyllol (o gofio bod yr effaith ar bobl ifanc yn ddi-os yn arwyddocaol o ran eu haddysg a'u hiechyd meddwl a'u llesiant). Rhoddodd yr Arglwyddes Hallett sicrwydd i'r Comisiynydd Plant y bydd **modiwl diweddarach** a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. At hynny, cadarnhaodd yr Arglwyddes Hallett fod yr ymchwiliad yn cynllunio ffyrdd o gasglu barn plant a phobl ifanc yn uniongyrchol.

## Modiwl 3 - Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair cenedl y DU

Dechreuodd Modiwl 3 effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair cenedl y DU ddydd Mawrth 8 Tachwedd 2022. Cyhoeddwyd rhestr o **Gyfranogwyr Craidd** ym Modiwl 3 ar 23 Chwefror 2023. Maent yn cynnwys Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, cyrff GIG Cymru a Llywodraeth Cymru

Bydd Modiwl 3 yn edrych ar **ymateb y llywodraeth a chymdeithas i Covid-19**. Bydd yn ystyried yr effaith y cafodd y pandemig ar **systemau gofal iechyd** yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys ystyried **canlyniadau gofal iechyd** sut yr ymatebodd y llywodraethau a'r cyhoedd i'r pandemig. Bydd yn archwilio **capasiti systemau gofal iechyd** i ymateb i bandemig a sut y datblygodd hyn yn ystod pandemig Covid-19. Bydd yn ystyried y sectorau a'r gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol a phrofiad pobl o ofal iechyd yn ystod y pandemig. Bydd hefyd yn edrych ar anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (megis mewn perthynas â chyfraddau marwolaeth, cyfarpar diogelu personol ac ocsifesuryddion).

Yn benodol, bydd y modiwl yn edrych ar y canlynol:

1. Effaith Covid-19 ar **brofiad pobl** o ofal iechyd.

2. **Penderfyniadau craidd** ac arweinyddiaeth mewn systemau gofal iechyd yn ystod y pandemig.

3. **Lefelau staffio** a **chapasiti** gofal critigol, sefydlu ysbytai Nightingale a’r defnydd ohonynt a'r defnydd o ysbytai preifat.

4. Y gwasanaethau 111, 999 ac ambiwlans, meddygfeydd ac ysbytai a **chydweithrediad trawstoriadol** rhwng gwasanaethau.

5. **Darpariaeth a thriniaeth** gofal iechyd i gleifion â Covid-19, ymateb systemau gofal iechyd i **dreialon clinigol ac ymchwil** yn ystod y pandemig. Dyraniad staff ac adnoddau. Yr effaith ar y rhai yr oedd arnynt angen gofal am resymau heblaw am Covid-19. Ansawdd y driniaeth i gleifion Covid-19 a’r rhai nad ydynt yn gleifion Covid-19, oedi cyn cael triniaeth, rhestrau aros a phobl yn peidio â cheisio triniaeth neu ei chael. Gofal lliniarol. Rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

6. Penderfyniadau am natur gofal iechyd i'w ddarparu i gleifion â Covid-19, ei waethygu a darparu dadebru cardio-anadlol, gan gynnwys **cyfarwyddiadau na cheisier dadebru cardio-anadlol**.

7. **Effaith y pandemig ar feddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill**, gan gynnwys y rhai dan hyfforddiant a grwpiau penodol o weithwyr gofal iechyd (er enghraifft drwy gyfeirio at gefndir ethnig). Argaeledd staff gofal iechyd. Gordal y GIG i'r rhai nad ydynt yn staff gofal iechyd y DU a'r penderfyniad i gael gwared ar y gordal.

8. **Atal lledaeniad COVID-19 mewn lleoliadau gofal iechyd**, gan gynnwys rheoli haint, digonolrwydd cyfarpar diogelu personol a rheolau ynghylch ymweld â'r rhai yn yr ysbyty.

9. **Cyfathrebu â chleifion** â Covid-19 a'u hanwyliaid am gyflwr a thriniaeth cleifion, gan gynnwys trafodaethau am gyfarwyddiadau na cheisier dadebru cardio-anadlol.

10. **Marwolaethau a achoswyd gan bandemig Covid-19**, o ran niferoedd, dosbarthu a chofnodi marwolaethau, gan gynnwys yr effaith ar grwpiau penodol o weithwyr gofal iechyd, er enghraifft, drwy gyfeirio at gefndir ethnig a lleoliad daearyddol.

11. **Gwarchod** a'r effaith ar y rhai sy'n agored i niwed yn glinigol (gan gynnwys y rhai y cyfeirir atynt fel rhai sy'n 'eithriadol o agored i niwed yn glinigol').

12. Nodweddu a nodi **Cyflwr Ôl-Covid** (gan gynnwys y cyflwr y cyfeirir ato fel 'Covid hir') a'i ddiagnosis a'i driniaeth.

## Gwrandawiad rhagarweiniol – Modiwl 3

Cynhaliwyd y gwrandawiad rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 3 ar 28 Chwefror 2023.

Yn y gwrandawiad, esboniodd y Farwnes Hallett y bydd rhywfaint o **orgyffwrdd rhwng gwahanol Fodiwlau** yn yr ymchwiliad cyhoeddus:

> Mae Modiwl 3, sef gofal iechyd, yn amlwg wrth wraidd ymchwiliad i bandemig Covid-19. Mae'n bwnc enfawr ac, fel rwyf wedi dweud o'r blaen, fy nod wrth gynnal yr Ymchwiliad hwn yw darparu adroddiadau, adroddiadau interim, drwy gydol yr Ymchwiliad, a gwneud argymhellion amserol pan fo hynny'n bosibl gan obeithio lleihau'r dioddefaint a gafwyd yn ystod y pandemig. Mae hynny'n golygu y bu'n rhaid i ni ddadansoddi'r amrywiaeth helaeth o faterion y gallai systemau gofal iechyd yn y DU eu cwmpasu'n ddarnau rheoladwy. Felly, mae'n ddigon posibl y bydd yr hyn y byddech o bosibl wedi meddwl y byddai'n cael ei gwmpasu ym Modwl 3 mewn modiwlau eraill. Felly, er

> enghraifft, bydd modiwlau eraill sy'n bwrpasol i edrych ar anghydraddoldebau iechyd ac effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a grwpiau penodol megis yr henoed, yr anabl, y tlawd a lleiafrifoedd.

Galwodd Covid Bereaved Families for Justice Cymru i Fodiwl 3 gael ei is-rannu felly, yn ogystal â Modiwl 3, mae Modiwlau 3A, 3B, 3C, yn edrych ar y systemau gofal iechyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Dywedodd y byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod iechyd yn fater datganoledig ac felly bod systemau gofal iechyd yn wahanol ym mhob gwlad ac y gwneir penderfyniadau gwahanol yn y gwledydd ar adegau gwahanol.

Dywedodd Mr Williams KC, ar ran Covid Bereaved Families for Justice Cymru, y canlynol wrth yr ymchwiliad:

> Wales has its own healthcare system. NHS Wales is not a legal entity and instead is comprised of local health boards, NHS Trusts and Public Health Wales. Relevant offices and agencies, such the Office of the Chief Medical Officer and Care Inspectorate Wales are specific to Wales. This means that key decisions made in Wales were largely separate to and often quite different… from those taken by the UK Government.

Ond dywedodd Ms Carey KC o dîm cyfreithiol yr ymchwiliad cyhoeddus y canlynol:

> The themes and topics identified in the provisional outline of scope enable the Inquiry to take account of any structural differences in the way each country's healthcare system is set up without the need for individual hearings.

Ychwanegodd Ms Carey KC y canlynol:

> The hearing of a health-related matters in an overarching module such as Module 3 allows comparisons between all four nations to be more easily evidenced and drawn.

Bydd ail wrandawiad rhagarweiniol Modiwl 3 yn cael ei gynnal ddydd Mercher 27 Medi. Mae'r Ymchwiliad yn bwriadu clywed tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn hydref 2024.

## Modiwl 4 - Brechlynnau a therapiwteg

Dechreuodd Modiwl 4 ar Frechlynnau a therapiwteg ar 5 Mehefin 2023. Cyhoeddwyd rhestr o Gyfranogwyr Craidd ym modiwl 4 ar 7 Medi. Maent yn

cynnwys **Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Anabledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.**

Bydd Modiwl 4 yn ystyried ystod o faterion sy'n ymwneud â **datblygu brechlynnau Covid-19 a chyflwyno'r rhaglen frechu**, ac yn gwneud argymhellion ar hynny, yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â thrin Covid-19 drwy feddyginiaethau presennol a newydd ochr yn ochr. Bydd ffocws ar y gwersi a ddysgwyd a pharodrwydd ar gyfer y pandemig nesaf.

Bydd yn edrych ar faterion thematig sy'n ymwneud â **nifer anghyfartal o bobl yn cael eu** brechu, i gynnwys nodi grwpiau yr oedd nifer anghyfartal ohonynt yn cael eu brechu, achosion posibl anghyfartaledd o'r fath ac ymateb y Llywodraeth.

Bydd y modiwl yn ymdrin â **phryder diweddar y cyhoedd mewn perthynas â diogelwch brechlynnau** a'r system bresennol ar gyfer iawn ariannol dan Gynllun Taliad Niwed trwy Frechiad y DU. Yn benodol, bydd y modiwl hwn yn edrych ar y canlynol:

1. **Datblygu, caffael, gweithgynhyrchu a chymeradwyo brechlynnau** yn ystod y pandemig, gan gynnwys effeithiolrwydd penderfyniadau ar draws y DU, yn benodol, rôl Tasglu Brechlyn y DU. Pa wersi y gallwn eu dysgu o arferion arloesol a gyflwynwyd yn llwyddiannus yn ystod y pandemig ar gyfer parodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol?

2. Datblygu **therapiwteg newydd**, treialon a'r defnydd o hynny yn ystod y pandemig, yn ogystal â'r defnydd o feddyginiaethau presennol.

3. **Cyflwyno brechlynnau** yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys gweithdrefnau cyflwyno megis: trefniadau ar lawr gwlad a negeseuon cyhoeddus; argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar gymhwysedd/flaenoriaethau a phenderfyniadau a wneir gan lunwyr polisi; moeseg penderfyniadau blaenoriaethu a'r effaith ar grwpiau penodol fel y rhai â chydafiacheddau.

4. **Rhwystrau o ran nifer y bobl a oedd yn cael eu brechu**, gan gynnwys hyder yn y brechlynnau a materion mynediad ac effeithiolrwydd, amseroldeb a digonolrwydd gwaith cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer anghydraddoldebau sy'n berthnasol i'r nifer sy'n cael eu brechu a'r ymateb iddynt.

5. **Materion diogelwch brechlynnau,** gan gynnwys gwyliadwriaeth ôl-farchnata, megis system monitro ac adrodd Cerdyn Melyn a

chydberthynas bosibl rhwng brechlynnau Covid-19 a materion cardiofasgwlaidd.

6. A oes angen diwygiadau i **Gynllun Taliad Niwed trwy Frechiad y DU**

## Gwrandawiad rhagarweiniol – Modiwl 4

Cynhaliwyd y gwrandawiad rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 4 ar 13 Medi 2023. Mae trawsgrifiad wedi'i gyhoeddi.

Yn y gwrandawiad, pwysleisiodd Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, cyfranogwr craidd, y pwysigrwydd bod Modiwl 4 yn rhoi ystyriaeth ystyrlon i'r prosesau a fabwysiadwyd yng Nghymru ac **effaith y penderfyniadau gwahanol a wnaed yng Nghymru**. Dywedodd tîm yr Ymchwiliad ei fod eisoes wedi dechrau'r broses o geisio tystiolaeth gan y pedair cenedl ac y bydd yn parhau i wneud hynny. At hynny gwnaed yr achos dros fabwysiadu **dull cymharol** yn y modiwl hwn.

Yn y gwrandawiad rhagarweiniol, dywedodd Ms Sheppard, yn cynrychioli **Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru,** fod angen ffocws penodol ym Modiwl 4 ar y canlynol:

- Penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ynghylch **blaenoriaethu** a'r modd y cyflwynwyd y brechlyn.
- Ystyried **materion rhanbarthol a lleol** a pham y gwnaed penderfyniadau gwahanol gan fyrddau iechyd lleol yn hytrach na strategaeth ganolog a threfnus.
- A roddwyd digon o ystyriaeth i'r **anghydraddoldebau neu'r rhwystrau** y mae'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn eu hwynebu ac a oedd anawsterau penodol gan y boblogaeth hŷn a'r rhai a oedd â chydafiacheddau wrth gael y brechlyn.
- Y penderfyniadau a wneir ynghylch **cyffuriau gwrthfeirol**, yn enwedig yn y misoedd cyn i'r brechlyn fod ar gael (nodwyd o'r blaen bod y defnydd o gyffuriau gwrthfeirol yn dod dan gwmpas Modiwl 3).
- Gwahaniaeth polisi ar draws cenhedloedd y DU ar **fandadau brechlyn** (neu basbortau brechlyn), gan gynnwys pam nad oedd gofyniad i weithwyr gofal iechyd gael eu brechu yng Nghymru fel mewn mannau eraill yn y DU.

Mae'r Ymchwiliad yn bwriadu clywed tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn haf 2024.